# DATGANIAD I'R WASG

**Dyddiad rhyddhau: 25 Ionawr 2024**

## Templedi brand newydd ar gyfer Wythnos Diogelwch Rheilffyrdd 2024 – dechreuwch arddangos eich cefnogaeth!

### *150 diwrnod i fynd #RSW24 #BuildingSafetyTogether*

Mae'n bleser gan y Fforwm Rheilffyrdd lansio cyfres newydd o dempledi wedi'u brandio ar gyfer Wythnos Diogelwch Rheilffyrdd 2024. Gellir ei lawrlwytho o wefan Wythnos Diogelwch Rheilffyrdd, mae'r delweddau graffeg wedi'i diweddaru ar gael yn rhad ac am ddim i sefydliadau hyrwyddo eu cefnogaeth a'u hymgysylltiad â'r fenter wych hon.

Mae'r gyfres o dempledi yn cynnwys:

- **Logo Wythnos Diogelwch Rheilffyrdd** (gwahanol fformatau)
- **Posteri** - gellir ei addasu'n rhwydd i gynnwys eich logo ac unrhyw ddigwyddiadau neu weithgareddau a drefnir gan eich mudiad
- **Graffeg ategol** i'w ddefnyddio ar gyfryngau cymdeithasol – dau fersiwn, un safonol ac un y gellir cynnwys eich logo
- **Cefndir Teams** – ffordd wych o arddangos eich cyfranogiad, a dechrau sgwrs!
- **Baner Llofnod e-bost** – ychwanegwch y faner i'ch llofnod i rannu eich ymrwymiad i ddiogelwch gyda'ch cleientiaid, partneriaid a rhanddeiliaid
- **Ffrâm ar gyfer Hunlun** – dau fersiwn, un ffrâm safonol ac un y gellir cynnwys eich logo. Nid oes dyddiad ar y rhain am reswm fel y gellir eu defnyddio flwyddyn ar ôl blwyddyn – dull cynaliadwy a ffordd hwyliog o ymgysylltu â'ch gweithlu neu'r cyhoedd!

Rydym hefyd yn falch iawn o fod wedi gwneud rhai datblygiadau i wefan Wythnos Diogelwch Rheilffyrdd a fydd yn ei gwneud hi'n haws fyth i sefydliadau hyrwyddo eu gweithgareddau a'u digwyddiadau.

I gynnwys eich digwyddiadau a'ch gweithgareddau, llenwch ffurflen ar-lein gan ychwanegu logo eich cwmni a'r wybodaeth am yr hyn y byddwch chi'n ei wneud. Yna, bydd tîm Wythnos Diogelwch Rheilffyrdd yn adolygu’r wybodaeth ac yn ei lansio yn fyw ar dudalen Beth Sy Mlaen 2024 y wefan.

Os, ar ôl cyflwyno eich ffurflen, rydych am newid yr wybodaeth wrth i'ch cynlluniau ddatblygu, llenwch ffurflen newydd gyda'ch copi diweddaraf ac fe ddiweddarwn eich manylion. Os ydych yn cynnal digwyddiad ar gyfer pobl y tu allan i'n sefydliad, byddwn yn cofnodi hyn wrth adolygu'r cyflwyniad ac yn sicrhau ei fod yn ymddangos ar yr adran ‘Agored i Bawb'.

**Dywedodd Elaine Clark, Prif Swyddog Gweithredol y Fforwm Rheilffyrdd**: "Rydym yn annog sefydliadau i ddefnyddio'r gyfres newydd o dempledi gyda brand a dechrau arddangos eu cefnogaeth i Wythnos Diogelwch Rheilffyrdd 2024.

"Mae yfory yn nodi 150 diwrnod i fynd; mae hwn yn amser gwych i ddechrau cynllunio'ch digwyddiadau neu'ch gweithgareddau a chyda ffurflen hawdd i gyflwyno'ch cynlluniau a'u cynnwys ar wefan Wythnos Diogelwch Rheilffyrdd, beth am anfon cofnod i ddangos eich ymgysylltiad – wrth i'ch cynlluniau esblygu, anfonwch eich manylion newydd aton ni.

"Cymerodd dros 140 o sefydliadau ran yn 2023, gadewch i ni barhau i hyrwyddo diogelwch gyda'n gilydd a dangos i bawb, cwsmeriaid a rhanddeiliaid fel ei gilydd, yn union yr hyn y gall y diwydiant ei gyflawni pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd at ddiben cyffredin – cadw pawb yn ddiogel ac yn iach."

**- Diwedd -**

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:**

Jemma Smalls, Rheolwr Cyfathrebu, Polisi a Materion Cyhoeddus | 07923 446174 | jemma@railforum.uk

**Y Fforwm Rheilffyrdd**

Wedi'i leoli yn Derby, mae'r Fforwm Rheilffyrdd yn gorff diwydiant cenedlaethol sydd â chysylltiadau rhanbarthol cryf gan gynnwys cefnogi'r clwstwr cadwyni cyflenwi rheilffyrdd sy'n bwysig yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ar draws Canolbarth Lloegr. Mae ein 380+ o aelodau yn darparu cynhyrchion a gwasanaethau ar draws pob agwedd ar y diwydiant. Mae'r Fforwm Rheilffyrdd yn cefnogi'r agenda a'r strategaeth reilffyrdd genedlaethol, gan annog cydweithredu, hyrwyddo galluoedd aelodau, arwain nifer o fentrau sgiliau a chefnogi, diogelwch, arloesedd a blaenoriaethau allforio. Mae'r Fforwm Rheilffyrdd yn eiddo i'w aelodau ac yn cael ei lywodraethu ganddynt gyda Bwrdd o gwmnïau sy'n aelodau.

www.railforum.uk

**Wythnos Diogelwch Rheilffyrdd**

Mae Wythnos Diogelwch Rheilffyrdd yn fenter a arweinir gan y diwydiant sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch rheilffyrdd i bawb. Nod yr wythnos yw ymgysylltu â phawb sy'n rhyngweithio â'r rheilffordd a hyrwyddo diogelwch rheilffyrdd. Trwy weithio mewn partneriaeth ag enwau a sefydliadau blaenllaw ar draws y diwydiant i hyrwyddo diogelwch rheilffyrdd, mae Wythnos Diogelwch Rheilffyrdd yn annog pawb i chwarae eu rhan – fel bod pobl yn cyrraedd adref yn ddiogel bob dydd. Y Fforwm Rheilffyrdd sy'n gofalu am Wythnos Diogelwch y Rheilffyrdd, ar ran y diwydiant.

www.railsafetyweek.org